Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mwy na geiriau....

Cynllun Gweithredu 2019–2020

Gofal da, gofal dwyieithog
Good care, bilingual care

Ebost: **Mwynageiriau@llyw.cymru**

Mwy na geiriau / More than just words

mwy_na_geiriau

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG37816 ISBN Digidol 978-1-83876-436-4

Cynnwys

Rhagair y Gweinidogion **2**

Cyflwyniad **3**

Cynllun Gweithredu 2019–2020 **6**

Thema: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg **6**

Amcan 1: bydd pobl yn hyderus bod eu hanghenion a'u dewis iaith Gymraeg yn dylanwadu ar gynllunio, comisiynu a chontractio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a adolygir yn rheolaidd, a'u bod yn cael eu hymwreiddio ynddynt. 6

Amcan 2: mae pobl yn ymwybodol o'r 'Cynnig Rhagweithiol' a cheir ymrwymiad amlwg i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar eu dewis iaith ac mae gwasanaethau'n dewis gwneud hynny. 7

Amcan 3: gall pobl fod yn hyderus bod cyrff addysg a phroffesiynol yn deall pwysigrwydd anghenion iaith Gymraeg a'u bod wedi cael eu hymwreiddio mewn cwricwla, rhaglenni hyfforddi a pholisïau. 8

Amcan 4: cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws gweithfannau iechyd a gofal cymdeithasol. 9

Thema: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun **10**

Amcan 5: mae pobl yn hyderus bod arolygiaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn adolygu ac yn adrodd ar eu profiad o wasanaethau. 10

Amcan 6: mae pobl yn hyderus ynghylch ymrwymiad y rheini sydd mewn rolau arwain ar draws iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau Cymraeg a'u datblygu gan ddibynnu ar ddewis ac angen. 11

Amcan 7: mae pobl yn hyderus bod y Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio mewn systemau technoleg/terminoleg iechyd a gofal cymdeithasol. 12

Atodiad 1: **13**
Safonau'r Gymraeg – eglurhad o sut y mae cynllun gweithredu *Mwy na geiriau* yn gweithio ochr yn ochr â'r Safonau.

Rhagair y Gweinidogion

Bob dydd, mae gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol ym mhob cwr o Gymru yn gweithio'n galed i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel. I lawer o deuluoedd ac unigolion, mae gofal o ansawdd uchel yn golygu'r gallu i ddefnyddio gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny oherwydd eu bod yn teimlo'n fwy cyfforddus yn eu hiaith eu hunain. Mae llawer o bobl yn teimlo'n ansicr iawn wrth ddod i gysylltiad â'r sector, ac nid oes ganddynt yr hyder i ofyn am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae mynd ati'n rhagweithiol i ofyn am ddewis iaith pobl a chynnig gwasanaethau yn y Gymraeg wedi bod yn un o egwyddorion allweddol *Mwy na geiriau*. Mae'n galw am newid mewn diwylliant sy'n golygu bod y 'Cynnig Rhagweithiol' yn ganolog i wasanaethau iechyd a gofal, ac mae'n rhoi'r cyfrifoldeb ar ddarparwyr gwasanaethau ac nid ar y defnyddiwr.

Mae diweddariadau ar weithredu fframwaith strategol olynol *Mwy na geiriau* wedi dangos cynnydd a phocedi o arferion da. Ond mae angen gwneud mwy hefyd i ddatblygu dull mwy cyson ar draws gwasanaethau. Un peth sydd wedi dod i'r amlwg yw'r cynnydd a fu yn yr ymwybyddiaeth o'r angen i gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg, ac mae mwy o ddealltwriaeth erbyn hyn hefyd. Wrth ystyried gwerth darparu gwasanaethau yn y Gymraeg, a'r angen sydd i wneud hynny, nid 'pam' yw'r prif gwestiwn sydd gan ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn awr. Yn hytrach, gofynnant 'sut' y gallant gynllunio a datblygu'r seilwaith, capasiti a'r gallu i ddarparu gofal yn y Gymraeg.

Er mwyn asesu'r effaith ymhellach rydym wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol o *Mwy na geiriau* a fydd yn adrodd yn ôl ar ei ganfyddiadau yn derfynol yn 2020.

Vaughan Gething AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Julie Morgan AC
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Rydym ar daith i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac rydym wedi ymrwymo i gynnal y momentwm a gwneud cynnydd pellach. Hyd nes y gwyddwn beth fydd canlyniadau'r gwerthusiad, bydd y cynllun gweithredu dros dro hwn ar gyfer 2019 a 2020 yn cyfrannu at y weledigaeth gyffredinol a bennwyd yn ein strategaeth Cymraeg 2050 ac yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd rhaid dangos arweiniad ar draws pob lefel o bob sefydliad er mwyn cyflawni'r amcanion a bennwyd yn y cynllun gweithredu hwn. Mae gan uwch-aelodau o staff gyfrifoldeb i feithrin diwylliant cefnogol er mwyn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cael gwasanaethau ac mae gan reolwyr gwasanaethau gyfrifoldeb i sicrhau bod hyn yn cael ei roi ar waith mewn gwasanaethau o ddydd i ddydd.

Mae'r camau galluogi a amlinellir yn y cynllun gweithredu dros dro yn cyd-fynd â Safonau'r Gymraeg a'r nod yw y byddant gyda'i gilydd yn gwella gwasanaethau Cymraeg ymhellach – gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y claf ac sy'n adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd eisoes.

Cyflwyniad

Lansiodd Llywodraeth Cymru *Mwy na geiriau*, y fframwaith strategol olynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol, ym mis Mawrth 2016. Roedd y cynllun gweithredu 3 blynedd yn cynnwys camau i'w cyflawni yn ystod 2016–2019.

Mae pobl yn dewis cael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y Gymraeg oherwydd dyna sydd orau ganddynt a dyna sy'n iawn iddynt. I bobl eraill, fodd bynnag, mae'n fwy na mater o ddewis, mae'n fater o angen. Mae hyn yn arbennig o wir am bobl hŷn, pobl sydd â dementia neu bobl sydd wedi cael strôc, neu blant ifanc sy'n siarad dim ond Cymraeg. Mae hefyd yn bwysig cydnabod nad yw'r unigolyn bob amser mewn sefyllfa i allu mynegi beth fyddai orau ganddo ef neu hi. Mae pobl yn aml yn agored i niwed pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac nid oes hyder ganddynt i ofyn am wasanaethau yn y Gymraeg. Rhaid i'r 'Cynnig Rhagweithiol' sy'n rhoi dewis i gleifion gael gwasanaeth yn y Gymraeg, hynny yw heb i gleifion orfod gofyn amdano, fod yn rhan annatod felly o'r gofal a ddarperir.

Comisiynwyd gwerthusiad annibynnol o'r strategaeth *Mwy na geiriau* ym mis Hydref 2018 i asesu cynnydd a mesur ei heffaith. Bydd y gwerthusiad yn adrodd yn ôl ar ei ganfyddiadau cychwynnol yn haf 2019 a disgwylir yr adroddiad terfynol ym mis Mai 2020. Er mwyn cynnal y momentwm, mae Bwrdd Partneriaeth y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cytuno i lunio cynllun gweithredu dros dro ar gyfer 2019 a 2020 sy'n cadw mewn cof y datblygiadau diweddar gan gynnwys pasio'r Rheoliadau ar Safonau'r Gymraeg ar gyfer y sector iechyd a chyhoeddi strategaeth Cymraeg 2050 sy'n canolbwyntio ar dair thema allweddol:

Thema 1:
Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

Thema 2:
Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

Thema 3:
Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Mae bron i 200,000 o aelodau o staff yng Nghymru yn darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae cleifion yn dod i gysylltiad â'r gwasanaeth mwy nag 20 miliwn o weithiau'r flwyddyn. O ystyried nifer y staff a'r ffaith eu bod yn dod i gysylltiad â'r cyhoedd mor aml, mae gan y sector hwn botensial i wneud cyfraniad gwerthfawr tuag at strategaeth Cymraeg 2050.

Daeth Safonau'r Gymraeg ar gyfer awdurdodau lleol (ac felly eu swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol) i rym ar 30 Mawrth 2016 a bydd y Safonau ar gyfer y sector iechyd yn dod i rym ar 30 Mai 2019. O dan y Safonau mae'n ofynnol i sefydliadau feithrin sgiliau Cymraeg eu staff, darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ac asesu'r angen am sgiliau Cymraeg wrth hysbysebu swyddi. Mae'r Safonau ar gyfer y sector iechyd hefyd yn cynnwys cyhoeddi cynllun 5 mlynedd yn nodi i ba raddau y gallant gynyddu eu gallu i gynnig ymgyngoriadau clinigol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Safonau'n gam pwysig ymlaen ar gyfer darparu gwasanaethau yn y Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol ac mae angen i'r camau gweithredu mewn fframweithiau *Mwy na geiriau* yn y dyfodol gyd-fynd a chanolbwyntio ar gamau galluogi i wella'r ddarpariaeth Gymraeg. Bydd rhai o'r camau sydd wedi'u cynnwys yn fframwaith 2016-2019 yn awr yn dod o dan y Safonau a byddant yn cael eu monitro gan Gomisiynydd y Gymraeg i sicrhau cydymffurfiaeth. Mae rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae'r Safonau yn gweithio ochr yn ochr â *Mwy na geiriau* i'w chael yn Atodiad 1.

Er mwyn goruchwylio, annog a chefnogi'r gwaith o gyflwyno'r fframwaith *Mwy na geiriau*, sefydlodd Llywodraeth Cymru Fwrdd Partneriaeth y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bydd gan y Bwrdd a'i aelodau rôl allweddol i'w chwarae o hyd i fonitro sut y bydd y cynllun gweithredu hwn yn cael ei roi ar waith.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymwybodol o bwysigrwydd perchenogaeth, ymrwymiad ac atebolrwydd ei rhanddeiliaid allweddol er mwyn gwireddu'r camau a nodir yn y cynllun a pha mor bwysig hefyd yw sicrhau bod arweiniad yn cael ei ddangos ar draws pob lefel ym mhob sefydliad a enwir fel partner ac un sy'n arwain ar y cyflenwi.

Mae'r 'Cynnig Rhagweithiol'[1] yn parhau yn egwyddor allweddol o *Mwy na Geiriau* ac mae'n un o elfennau canolog y cynllun gweithredu hwn o hyd. Mae'n gadarnhaol nodi bod mwy o ymwybyddiaeth o'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Rhoddwyd blaenoriaeth ar ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' yng ngwasanaethau'r rheng flaen ond mae angen gwneud mwy i sicrhau bod modd ei gynnig ar lefel system gyfan.

Cafodd *Cymru Iachach: ein cynllun iechyd a gofal cymdeithasol* ei gyhoeddi ym mis Hydref 2018 mewn ymateb i adroddiad yr Adolygiad Seneddol. Mae'r cynllun yn cynnig dull system gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, gyda'r gwasanaethau yn un elfen yn unig wrth gefnogi pobl i fwynhau gwell iechyd a llesiant trwy gydol eu bywydau. Bydd yn system 'llesiant' sy'n ceisio cefnogi a rhagweld anghenion iechyd, atal salwch a lleihau effaith iechyd gwael. Mae ffocws penodol yn *Cymru Iachach* a'r canllawiau ar gyfer y *Gronfa Trawsnewid* i gefnogi'r gwaith o weithredu'r cynllun, yn arbennig modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol di-dor a hyrwyddir gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ar ddarpariaeth Gymraeg.

1. Mae'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu darparu gwasanaeth yn y Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano.

Yn ogystal â'r 'Cynnig Rhagweithiol' bydd angen rhoi ffocws yn y cynllun gweithredu ar gyfer *Mwy na geiriau* yn 2019 – 2020 ar y canlynol, sy'n gysylltiedig â themâu dau a thri o strategaeth Cymraeg 2050:

Thema 2:
Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

Cynllunio'r gweithlu gan gynnwys recriwtio staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg.

Sicrhau bod staff yn manteisio ar yr hyfforddiant iaith a gynigir.

Magu hyder staff sydd â rhywfaint o sgiliau iaith Gymraeg i ddefnyddio'r iaith.

Defnyddio gwybodaeth a dadansoddi yn well, gan gynnwys proffiliau o'r boblogaeth, er mwyn eu defnyddio i gynllunio a chomisiynu gwasanaethau.

Thema 3:
Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio mewn technoleg/terminoleg.

Sefydliadau i ddangos arweiniad a chymryd perchenogaeth.

Mae'r camau yn y cynllun wedi'u strwythuro o amgylch y ddwy thema uchod ac yn adeiladu ar y gwaith hyd yma ar amcanion a chamau gweithredu fframwaith 2016–2019.

Cynllun Gweithredu 2019/20

Thema: **Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg**

Amcan 1 – bydd pobl yn hyderus bod eu hanghenion a'u dewis iaith Gymraeg yn dylanwadu ar **gynllunio, comisiynu a chontractio** gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a adolygir yn rheolaidd, a'u bod yn cael eu hymwreiddio ynddynt.

Rhif y Cam gweithredu	Cam gweithredu	Prif Gyfrifoldeb	Cwblhawyd erbyn:
1.1	Mae GIG Cymru ac adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yn defnyddio proffiliau iaith Gymraeg y boblogaeth a chymunedau ar gyfer asesu sgiliau presennol ac yn y dyfodol y gweithlu mewn perthynas â chynllunio gwasanaethau/ manylebau contract/ cytundebau lefel gwasanaeth. Yn achos y GIG bydd hyn yn un o ofynion eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig/ cynlluniau blynyddol. (Mae Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymrwymo i weithio tuag at sgiliau Cymraeg eu gweithlu er mwyn adlewyrchu'r gymuned y maent yn ei gwasanaethu.)	Prif Weithredwyr GIG Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol	Adrodd ar gynnydd ym mis Ebrill 2020
1.2	Arolwg sylfaenol o ddarpariaeth Gymraeg mewn practisau meddygon teulu i gael ei gynnal i gefnogi gwaith mewn clystyrau ar gyfer nodi camau gweithredu i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg.	Llywodraeth Cymru Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol Clystyrau Gofal Sylfaenol	Hydref 2019
1.3	Y newidiadau a wnaed i'r Rheoliadau ar gyfer dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg i gael eu gosod ar gontractwyr gofal sylfaenol.	Llywodraeth Cymru	Mehefin 2019
1.4	Cyflwyno System Genedlaethol Cymru ar gyfer Adrodd ar y Gweithlu ac un platfform ar gyfer hysbysebu swyddi gweithlu'r gofal sylfaenol. Bydd y system adrodd yn golygu bod modd cael gwybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg meddygon teulu a staff practisau wrth gasglu'r data.	Llywodraeth Cymru Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru	Mawrth 2020

Amcan 2 – mae pobl yn ymwybodol o'r '**Cynnig Rhagweithiol**' a cheir ymrwymiad amlwg i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar eu dewis iaith ac mae gwasanaethau'n **dewis gwneud hynny**.

Rhif y Cam gweithredu	Cam gweithredu	Prif Gyfrifoldeb	Cwblhawyd erbyn:
2.1	Rhoi gwybod i holl staff GIG Cymru, awdurdodau lleol a gwasanaethau a gomisiynwyd am y 'Cynnig Rhagweithiol'.	Prif Weithredwyr GIG Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol	Adrodd ar gynnydd gan arweinwyr ym mis Gorffennaf 2020
2.2	Gwneud cynnydd ar weithredu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn y fframwaith sefydlu a rennir y cytunwyd arno a'r rhaglen diwygio cymwysterau galwedigaethol.	Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)	Adrodd ar gynnydd ym mis Mawrth 2020
2.3	Arferion gorau i gael eu cyflwyno i staff sy'n cymryd rhan mewn darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y 3 fforwm rhanbarthol *Mwy na geiriau* yn darparu adroddiad ar y cynnydd ar rannu arferion gorau i Fwrdd Partneriaeth y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.	Llywodraeth Cymru Prif Weithredwyr GIG Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol GCC Bwrdd Partneriaeth y Gymraeg Fforymau rhanbarthol *Mwy na geiriau*	Ebrill 2020 ac yn parhau
2.4	Hyrwyddo pwysigrwydd sgiliau iaith Gymraeg mewn gyrfaoedd iechyd a gofal cymdeithasol gan gynnwys datblygu ymhellach borthol a sioeau teithiol / sesiynau ennyn diddordeb Gyrfa Cymru gydag ysgolion a cholegau i gynnwys gweminarau / pecynnau ar-lein.	Llywodraeth Cymru Gyrfa Cymru Gofal Cymdeithasol Cymru Prif Weithredwyr GIG Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol	Parhaus
2.5	Datblygu'r cynlluniau peilot Cymraeg Byd Busnes mewn gofal sylfaenol er mwyn helpu i rannu arferion gorau. Llunio pecyn cymorth ar gyfer gofal sylfaenol fel rhan o'r gwaith hwn.	Llywodraeth Cymru Cymraeg Byd Busnes Prif Weithredwyr GIG Cymru	Mawrth 2020

Amcan 3 – gall pobl fod yn hyderus bod cyrff **addysg** a phroffesiynol yn deall pwysigrwydd anghenion iaith Gymraeg a'u bod wedi cael eu hymwreiddio mewn cwricwla, rhaglenni hyfforddi a pholisïau.

Rhif y Cam gweithredu	Cam gweithredu	Prif Gyfrifoldeb	Cwblhawyd erbyn:
3.1	Ymwreiddio pwysigrwydd y Gymraeg yn Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.	AaGIC GCC	GCC / AaGIC i adrodd ar gynnydd i'r Bwrdd Partneriaeth ym mis Gorffennaf 2019
3.2	Sicrhau bod yr holl staff, lle bo hynny'n ymarferol, yn cael mynediad at yr holl adnoddau a ddatblygwyd gan sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a allai helpu staff iechyd a gofal cymdeithasol ddarparu gwasanaethau Cymraeg, p'un a ydynt eisoes yn fyfyrwyr ai peidio.	Sefydliadau Addysg Uwch Darparwyr Addysg Bellach Coleg Cymraeg Cenedlaethol Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) Llywodraeth Cymru GCC	Adrodd ar gynnydd ym mis Gorffennaf 2020
3.3	Llywodraeth Cymru ynghyd â sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch i adeiladu ar y gwaith o wella'r ddarpariaeth o gyrsiau cyfrwng Cymraeg ymhellach mewn iechyd a gofal cymdeithasol, a nodi cyfleoedd eraill i symud yr agenda yn ei blaen.	Llywodraeth Cymru AaGIC Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) Sefydliadau Addysg Uwch Sefydliadau Addysg Bellach Coleg Cymraeg Cenedlaethol GCC	Adrodd ar gynnydd ym mis Gorffennaf 2020
3.4	Colegau Cymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i weithio gyda'i gilydd i nodi llwybrau iaith Gymraeg yn y sector iechyd ar gyfer symud ymlaen o Addysg Bellach i Addysg Uwch.	Colegau Cymru /Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Adrodd ar gynnydd ym mis Gorffennaf 2020
3.5	Mapio'r sefyllfa bresennol o ran hyfforddeion dwyieithog a darpariaeth ddwyieithog mewn addysg a rhaglenni hyfforddi er mwyn adnabod meysydd sydd angen eu cryfhau a bod hyn wedyn yn sail ar gyfer comisiynu.	Llywodraeth Cymru AaGIC	Adrodd ar gynnydd ym mis Mawrth 2020
3.6	Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y GIG a darparwyr gofal cymdeithasol i weithio gyda'i gilydd ymhellach er mwyn i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg allu cael eu rhoi mewn parau / eu mentora â staff sy'n siarad Cymraeg.	Coleg Cymraeg Cenedlaethol Prif Weithredwyr GIG Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Colegau Cymru	Adrodd ar gynnydd ym mis Mawrth 2020

Amcan 4 – cynyddu'r **defnydd o'r Gymraeg** ar draws gweithfannau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rhif y Cam gweithredu	Cam gweithredu	Prif Gyfrifoldeb	Cwblhawyd erbyn:
4.1	Cefnogaeth i gael ei rhoi i staff i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg, gan ganolbwyntio'n benodol ar annog a grymuso siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg a'u datblygu.	Prif Weithredwyr GIG Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol GCC	Adrodd ar gynnydd ym mis Ebrill 2020
4.2	Codi ymwybyddiaeth ac annog staff i gofrestru a chwblhau'r cyrsiau dysgu ar-lein ar gyfer y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, Cymraeg Gwaith, a luniwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. (Disgwylir i bob aelod o staff â sgiliau lefel 1 gwblhau'r cwrs fel rhan o'i hyfforddiant sefydlu / datblygiad proffesiynol parhaus).	Prif Weithredwyr GIG Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol GCC Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol	Mawrth 2020 ac yn parhau
4.3	Hyrwyddo arferion da ymhellach, gan gynnwys defnyddio tiwtoriaid i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg staff a hyrwyddo darpariaeth ac adnoddau perthnasol gan gynnwys rhaglenni Cymraeg Gwaith.	Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol Prif Weithredwyr GIG Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol GCC	Mawrth 2020

Thema: **Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun**

Amcan 5 – mae pobl yn hyderus bod **arolygiaethau** iechyd a gofal cymdeithasol yn adolygu ac yn adrodd ar eu profiad o wasanaethau.

Rhif y Cam gweithredu	Cam gweithredu	Prif Gyfrifoldeb	Cwblhawyd erbyn:
5.1	Mae Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn parhau i adolygu'r 'Cynnig Rhagweithiol' a'r profiad o wasanaethau Cymraeg ac yn adrodd ar hyn.	Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)	AGC ac AGIC i adrodd ar gynnydd erbyn mis Gorffennaf 2019 ac yn barhaus
5.2	Bydd y gwaith arfarnu i asesu cynnydd ac effaith *Mwy na geiriau* yn cynnwys casglu barn darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau.	Llywodraeth Cymru	Mai 2020

Amcan 6 – mae pobl yn hyderus ynghylch ymrwymiad y rheini sydd mewn rolau **arwain** ar draws iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau Cymraeg a'u datblygu gan ddibynnu ar ddewis ac angen.

Rhif y Cam gweithredu	Cam gweithredu	Prif Gyfrifoldeb	Cwblhawyd erbyn:
6.1	Cyflwyno Cymru Iachach i ymwreiddio anghenion a gofynion iaith Gymraeg ymhellach. Bydd y Cynllun Tymor Hir yn cynnwys ymrwymiad i gomisiynu strategaeth hirdymor ar gyfer y gweithlu ar gyfer AaGIC a GCC. Bydd hyn yn digwydd trwy wneud y defnydd gorau o weithwyr sy'n siarad Cymraeg yn y gweithlu presennol, darparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg / defnyddio cyfleoedd ar gyfer pob aelod o staff, a thrwy recriwtio mwy o ymarferwyr â sgiliau iaith Gymraeg.	Llywodraeth Cymru Prif Weithredwyr GIG Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol GCC Bwrdd Partneriaeth y Gymraeg	Parhaus yn unol â chyflawni'r fframwaith ar gyfer Cymru Iachach.
6.2	Cefnogi ymhellach y gwaith o ddatblygu fforymau rhanbarthol *Mwy na geiriau* ledled Cymru sy'n tynnu ynghyd gynrychiolwyr o amryw o sefydliadau iechyd a gofal er mwyn hyrwyddo cydweithio, rhannu arferion gorau a chefnogi cynnydd ar lefel ranbarthol.	Prif Weithredwyr GIG Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Addysg Uwch Addysg Bellach GCC	Parhaus
6.3	Y 'Cynnig Rhagweithiol' a'r angen i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg i gael eu hymwreiddio ymhellach mewn canllawiau cenedlaethol ar asesu, statudol ac anstatudol. Mae hyn yn cynnwys asesu clinigol proffesiynol mewn iechyd a gofal cymdeithasol.	Llywodraeth Cymru	Mawrth 2020
6.4	Uwch-arweinwyr yn dangos ymrwymiad i wneud cynnydd gyda gwasanaethau Cymraeg, gan gynnwys sicrhau bod ganddynt swyddogion ac adnoddau Cymraeg yn eu sefydliadau eu hunain i wneud y gwaith a'i gefnogi.	Prif Weithredwyr GIG Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol	Parhaus

Amcan 7 – mae pobl yn hyderus bod y Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio mewn **systemau technoleg/terminoleg** iechyd a gofal cymdeithasol.

Rhif y Cam gweithredu	Cam gweithredu	Prif Gyfrifoldeb	Cwblhawyd erbyn:
7.1	Y templed adrodd ar gyfer rhoi tystiolaeth o gynllunio gwasanaethau Cymraeg a'u darparu yn Fframwaith Cyflawni a Chanlyniadau'r GIG i gael ei adolygu ar gyfer 2019/20 ac adborth ar yr adroddiadau i gael ei rannu.	Llywodraeth Cymru	Ebrill 2020
7.2	Sicrhau bod platfformau a systemau digidol ar-lein mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn y dyfodol yn rhoi sylw i ystyriaethau mewn perthynas â'r Gymraeg o'r cychwyn cyntaf, a lle bo hynny'n bosibl, gwella capasiti systemau presennol o ran y Gymraeg, yn enwedig y rheini sy'n casglu gwybodaeth am sgiliau'r gweithlu, dewis iaith, pryd y bydd 'Cynnig Rhagweithiol' yn cael ei wneud a rhannu gwybodaeth ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.	Prif Weithredwyr GIG Cymru Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) Llywodraeth Cymru	Parhaus
7.3	Datblygu canllawiau ac arferion, a chytuno arnynt, ar gyfer dull safonol o olrhain dewis o ran y Gymraeg ar gofnodion cleifion ar gyfer staff mewn iechyd a gofal cymdeithasol.	Llywodraeth Cymru gydag aelodau o'r grŵp gorchwyl a gorffen	Mawrth 2020
7.4	Cytuno ar gwestiynau, sgriptiau a safonau ar gyfer olrhain dewis iaith Gymraeg, eu treialu'n fanwl cyn eu cyflwyno a'u hadeiladu'n gyson i mewn i systemau iechyd a gofal cymdeithasol.	Llywodraeth Cymru NWIS	Mawrth 2020
7.5	Cefnogi'r gwaith o ddatblygu rhagor o adnoddau geiriadur a chorpws terminoleg o safon uchel i gefnogi dysgwyr a siaradwyr Cymraeg rhugl mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.	Llywodraeth Cymru	Parhaus

Atodiad 1: Safonau'r Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru ac mae hefyd yn darparu ar gyfer Safonau'r Gymraeg y gellir eu gorfodi ar ystod o gyrff ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae'r Safonau yn disodli Cynlluniau Iaith Gymraeg ac yn adeiladu arnynt. Byddant yn ei gwneud yn haws i bobl gael gwasanaethau Cymraeg, a defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd. Diben Safonau'r Gymraeg yw:

- gwella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg eu disgwyl yn y Gymraeg gan sefydliadau a chynyddu'r defnydd a wneir gan bobl o wasanaethau Cymraeg
- cynnig mwy o eglurder a chysondeb i siaradwyr Cymraeg o ran y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn y Gymraeg
- ei gwneud yn glir i sefydliadau beth sydd angen iddynt ei wneud o ran y Gymraeg.

Daeth Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) i rym ar 30 Mawrth 2016. Maent yn caniatáu i Gomisiynydd y Gymraeg orfodi safonau ar awdurdodau lleol (ac felly wasanaethau cymdeithasol). Cafodd rheoliadau yn gwneud Safonau'r Gymraeg yn gymwys i Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd eu gwneud gan y Cynulliad ym mis Mawrth 2018 (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018) a daethant i rym ddiwedd mis Mehefin 2018. Ers hynny, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi rhoi hysbysiadau cydymffurfio i'r cyrff hynny a byddant yn dechrau cydymffurfio â safonau o 30 Mai 2019 ymlaen. Mae'r Safonau'n gymwys i wasanaethau a ddarperir ganddynt i'r cyhoedd, ond maent hefyd yn cynnwys y gofyniad i gyrff ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg eu staff, darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg ac asesu'r angen am sgiliau iaith Gymraeg wrth hysbysebu swyddi. Ar gyfer y sector iechyd, mae yna hefyd safon sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG gyhoeddi cynllun pum mlynedd yn nodi i ba raddau y gallant gynnal ymgyngoriadau clinigol yn y Gymraeg a'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd i gynyddu eu gallu i wneud hynny. Rhaid i bob corff hefyd ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg eu staff a chadw cofnod o'r sgiliau hynny yn ogystal â dangos yn eu cynlluniau ar gyfer newid a gwella gwasanaethau eu bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd ati'n rhagweithiol i gynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Nid yw Safonau'r Gymraeg yn gymwys i ddarparwyr gofal sylfaenol, gan gynnwys meddygfeydd, ar wahân i nifer bach sy'n cael eu rheoli'n uniongyrchol gan fyrddau iechyd. I gyd-fynd â chyflwyno Safonau'r Gymraeg ar gyfer y sector iechyd, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno â phob un o'r pedwar corff cynrychioliadol y bydd yn cynnwys dyletswyddau iaith Gymraeg yn y contractau / telerau gwasanaeth ar gyfer contractwyr gofal sylfaenol annibynnol. Mae'r rhain yn ymwneud â'r Safonau perthnasol ar gyfer byrddau iechyd a ffocws ar hyrwyddo gwasanaethau, datblygu sgiliau iaith Gymraeg a chofnodi'r 'Cynnig Rhagweithiol'.

Bydd rhaid i'r cyrff iechyd gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o 30 Mai ymlaen, felly mae angen i'r camau ar gyfer y dyfodol a nodir yng nghynllun gweithredu dros dro *Mwy na geiriau* ar gyfer 2019 a 2020 weithio ochr yn ochr â'r gofynion o dan y Safonau a'u hategu, nid eu dyblygu. Mae'r Safonau yn gosod y fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau iaith Gymraeg yng Nghymru, a hefyd yn gosod rhai dyletswyddau ar gyrff ynghylch eu defnydd o'r Gymraeg yn fewnol. Yn y cyfamser, mae mwy o ffocws yn y camau gweithredu yng nghynllun *Mwy na geiriau* ar alluogi gwelliannau pellach i wasanaethau iaith Gymraeg yn y gofal a ddarperir i gleifion. Mae'r Safonau a'r cynllun yn chwarae eu rhan i wireddu'r weledigaeth gyffredinol a amlinellir yn y strategaeth Cymraeg 2050, ac maent yn ddarnau o'r un jig-so sy'n helpu i wella ansawdd gwasanaethau iechyd a gofal i siaradwyr Cymraeg.